TEMPLED GRANT DYSGU PROFFESIYNOL/*PROFESSIONAL LEARNING GRANT TEMPLATE*

Ysgol/*School*	**Ysgol Yr Hendre**
Swm a ddyrannwyd/ *Allocated Sum*	**£12,012**

Amlinelliad o'r bwriadau/*Outline of intentions*	**Gwella a chysoni ansawdd yr ADY a Chynhwysiad ar draws yr ysgol trwy ddatblygu'r ysgol i gydymffurfio'n llawn a'r Ddeddfwriaeth ADY newydd:** • Hyfforddiant i'r CADY ar ofynion y ddeddfwriaeth er mwyn ei raeadru i weddill y staff a'u cefnogi. • Sefydlu rhwydwaith o gefnogaeth, herio a rhannu arferion llwyddiannus gyda Chydlynwyr ADY y dalgylch trwy'r prosiect Ymgysylltu Cymheiriad. **Gwella a chryfhau'r broses gynllunio yn unol ag egwyddorion Cwricwlwm i Gymru - Datblygu datblygu dealltwriaeth gadarn o'r 12 Egwyddor Addysgegol a chontiniwm mewn profiadau dysgu:** • Sicrhau dealltwriaeth pawb (athrawon a chymorthyddion) o'r gofynion newydd ac yn benodol - 4 Diben / Camau Cynnydd / Datganiadau Beth sy'n Bwysig / 12 Egwyddorion Addysgeg. • Parhau i ddatblygu dulliau cynllunio tymor byr yr ysgol gan ymgorffori 4 diben Cwricwlwm i Gymru o fewn y gweithgareddau gan sicrhau bod disgyblion a rhieni yn cael llais pwrpasol o fewn y cynllun er mwyn sirchau cyswllt lleol a'r gwaith. • Pob blwyddyn i gynllunio prosiect cyfoethog sy'n campasu Datganiadau 'Beth sy'n Bwysig' a'r Camau Cynnydd MDaPh Iaith. • Trefnu amserlen o gefnogaeth a chydweithio ymysg athrawon, yn gyson dros y flwyddyn gan gynnwys cymorthyddion i ledaenu, rhannu a chysoni arferion, e.e. Triawdau / pedwarawd yn ymweld ac ysgolion er mwyn adnabod arfer dda a meysydd i'w datblygu. • Cynnal ffair rhannu arfer dda i gyflwyno a gwerthuso prosiectau pob ysgol ac adnabod camau datblygu pellach. **Ymestyn ymhellach waith ymchwil gweithredol yr ysgol ym maes AaGD - Datblygu a chysoni ansawdd yr addysgeg ar draws yr ysgol yn unol ar arfer orau:** • Sicrhau dealltwriaeth pawb o'r Safonau Proffesiynol newydd a'u defnyddio'n gyson i drafod anghenion datblygu. • Parhau i addasu trefn Rheoli Perfformiad trwy wneud defnydd o'r Continua Addysgu fel dull o adnabod anghenion datblygu. • Cydlynwyr AaGD CS / CA2 i drefnu amserlen o gefnogaeth a chydweithio fel staff er mwyn mireinio, datblygu a chysoni arferion AaGD. • Parhau i ddatblygu a chysoni holl elfennau Asesu Ffurfiannol a Meddylfryd Twf i safon dda neu well yn y dosbarthiadau.

Yr Effaith a'r Canlyniadau a Ddisgwylir/ *Expected Impact and Outcomes*	➢ Rhwydweithiau cydweithio effeithiol ymysg ysgolion y dalgylch yn cyfrannu at ddatblygu a gwella gwybodaeth ac arbenigedd staff mewn meysydd ADY amrywiol / Cwricwlwm i Gymru; ➢ Cynnydd mewn hyder ac arbenigedd yr athrawon wrth gyflwyno gweithgareddau sy'n ymateb i ofynion CiG gan sicrhau continiwm o 3 i 16 oed. ➢ Athrawon yn cynllunio cyfleoedd i ymgorffori'r egwyddorion yn effeithiol i'w cynlluniau ac yn eu gweithredu'n effeithiol ar lawr y dosbarthiadau. ➢ Safonau addysgu a dysgu'r ysgol yn dda neu well yn bron pob un o'r dosbarthiadau ac yn amlygu fod y 12 egwyddor addysgegol yn cael eu cyflawni yn effeithiol. ➢ Rhan fwyaf o'r dysgwyr, gan gynnwys dysgwyr ADY, yn bron pob un o'r dosbarthiadau yn datblygu'n dda fel dysgwyr annibynnol sy'n wynebu heriau yn hyderus ac yn llwyddiannus gan arwain iddynt wneud cynnydd da neu well o ystyried eu hoedran a'u gallu.

Gwerthuso/*Evaluation*

Beth sydd wedi gweithio'n dda/*What worked well*	
Yr Effaith a'r Canlyniadau/ *Impact and Outcomes*	
Y Cam Nesaf/*Next stage*	